**EITEM AR YR AGENDA: 11**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17 Rhagfyr 2012**

## GWASANAETH CAFFAEL CENEDLAETHOL

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Gofynnir i Aelodau ystyried cymeradwyo fod yr Awdurdod yn ymuno â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, yn seiliedig ar y llythyr yn Atodiad 1. Bydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn darparu cyfrwng strategol i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru, i gaffael meysydd cyffredinol o nwyddau a gwasanaethau.

## CEFNDIR

2 Argymhellwyd yn glir yn yr adolygiad "Prynu'n Ddoethach ar Adegau Mwy Anodd" yn 2010, y dylid sefydlu contractau ar gyfer y math hwn o wariant er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei wneud unwaith yn unig i Gymru. Mae'r model Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi creu manteision sylweddol i'r llywodraethau datganoledig eraill yn y Deyrnas Unedig. Mae'n ddull gweithredu llwyddiannus ar gyfer sicrhau'r budd mwyaf o brosesau caffael ac yn fodel a ddefnyddir gan y rhan fwyaf o fusnesau byd-eang yn y sector preifat.

3 Mae traean (oddeutu £4.3 biliwn) o gyllideb y sector cyhoeddus yn cael ei wario ar nwyddau a gwasanaethau y flwyddyn. Mae'r sector gyhoeddus yn wynebu pwysau nas gwelwyd mo'u tebyg o'r blaen ar gyllidebau ac felly mae'n hanfodol fod arian cyhoeddus yn cael ei wario yn ddoeth. Mae ymchwil wedi dangos fod o leiaf 20-30% o'r hyn a brynir yn gyffredin i bob sefydliad ac yn bethau sy'n cael eu prynu bob blwyddyn. Mae meysydd o wariant cyffredinol ac ail-adroddus yn cynnwys pethau fel offer ysgrifennu, dodrefn swyddfa, teithio, caledwedd a meddalwedd TGCh a gwasanaethau post.

**GWYBODAETH**

4 Mae'r Gwasanaeth Caffael Cyhoeddus yn cwrdd â holl anghenion agenda Pwyllgor Materion Cenedlaethol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae'n ganlyniad adolygiad caffael yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

5 Mae cwmpas y Gwasanaeth Caffael Cyhoeddus wedi ei seilio ar gategori penodol o nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu caffael ar hyn o bryd. Diffinir meysydd gwario cyffredinol ac ail-adroddus fel y nwyddau a'r gwasanaethau hynny a brynir gan amryw sectorau bob blwyddyn. Nid yw'r rhain o reidrwydd o werth drudfawr na chymhleth, ond maent yn cynrychioli 23% o wariant y sector cyhoeddus.

▪ 6 y Gwasanaeth Caffael Cyhoeddus fydd y cyfrwng strategol i gaffael nwyddau a gwasanaethau cyffredin i Gymru a bydd yn canolbwyntio ar dair agwedd – Datblygu Manylebau Cyffredin, Tendro a Rheoli Contractau. Bydd yn ceisio llywio'r raddfa gaffael o'r Sector Cyhoeddus Cymru ac yn ceisio datblygu strategaethau a gaiff effaith gadarnhaol ar yr economi yng Nghymru gan gynnwys busnesau bach a chanolig.

7 Bu'r sector Tân ac Achub yn cymryd rhan yn y ddau lif gwaith, gan gwrdd yn rheolaidd dros rai misoedd i gynnal yr ymchwil manwl a arweiniodd at achos busnes cynhwysfawr.

8 Gofynnwyd i bob Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru, a'r holl gyrff cyhoeddus eraill, gytuno i ymuno â'r Gwasanaeth Caffael Cyhoeddus (gweler y llythyr yn atodiad 2). Y dyddiad cau ar gyfer ymateb fydd 14eg Rhagfyr 2012, er ei fod wedi ei ymestyn i aros penderfyniad y tri Awdurdod Tân ac Achub.

9 Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ddefnyddio fframwaith cytundebau'r Gwasanaeth Caffael Cyhoeddus. Mae'r llythyr atodol yn ymateb yn gadarnhaol i'r cais hwn gyda rhai amodau.

**Y Goblygiadau Ariannol a Chyfreithiol**

10 Y disgwyl yw y sicrheir arbedion ariannol, yn arbennig ym mlynyddoedd un a dau pan fydd Llywodraeth Cymru yn ariannu costau sefydlu a rhedeg y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Ym mlynyddoedd 3 a 5, bydd y sefydliad yn ei ariannu ei hun gan y cyflenwyr ar y fframwaith, a gallai hyn gael ei adlewyrchu yn y prisiau a godir gan y cyflenwyr, ond y disgwyl o hyd fydd y sicrheir arbedion yn gyffredinol trwy'r dull hwn o reoli yn ôl categorïau.

11 Mae disgwyl y bydd yr ymrwymiad am bum mlynedd. Byddai perygl i enw da petai'r gwasanaeth yn tynnu allan yn ystod y pum mlynedd hyn, ond mae'n bosibl tynnu allan o nifer cyfyngedig o gontractau unigol, trwy gyfiawnhau i Fwrdd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (yn ogystal â'r rhai a fynegwyd eisoes yn y llythyr derbyn). Bydd angen trafod yr eithriadau hyn yn y lle cyntaf gyda rheolwyr y categorïau a benodir gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

12 Mae gan y sector Tân ac Achub contractau arbenigol eisoes yn eu lle ar gyfer rhai nwyddau, er eu bod yn dod o fewn y categori gwariant cyffredin ac ailadroddus, ac enghreifftiau da o hyn yw dillad a lifrai a cherbydau goleuadau glas, ond bydd rhai eraill sydd o fewn y sector "goleuadau glas" ac sydd eisoes yn cynnig contractau arbenigol, er enghraifft cyfarpar amddiffyn personol. Tynnir sylw at y contractau hyn yn y llythyr ymateb fel rhai sydd eisoes yn cynnig gwerth eithriadol ac sydd yn annhebygol o allu gael eu gwella.

**ARGYMHELLIAD**

13 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo llofnodi'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, gyda'r amodau a amlinellir yn y llythyr a atodir.

DYDDIAD

Tracey Lee
Rheolwr-Gyfarwyddwr
Cyngor Dinas Casnewydd
Y Ganolfan Ddinesig
Casnewydd
NP20 4UR

Annwyl Ms Lee

**Parthed: Gwahoddiad i ymuno â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.**

Dyma ddychwelyd yr ymateb i'r gwahoddiad i ymuno â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn dymuno mynegi ei ymrwymiad i fod yn rhan o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, gyda'r amod canlynol.

Ers dechrau'r prosiect, mae swyddogion o'r sector tân ac achub wedi ei gwneud yn gwbl glir y bydd y Gwasanaethau, mewn perthynas â rhai nwyddau penodol, yn parhau i ddefnyddio'r contractau cenedlaethol sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau gwerth am arian a darparu nwyddau a gwasanaethau addas i'r diben ar gyfer y sector.

Ystyriwyd y rhagdybiaethau hyn yn ystod y gwaith a wnaed i greu'r model a wnaed gan y grŵp gorchwyl a gorffen Gwariant Cyffredin ac Ailadroddus.

Dyfynnwyd y canlynol yn benodol:-

Rheoli cerbydau – Y Fflyd

- Mae cerbydau ysgafn yn dod trwy'r fframwaith "Goleuadau Glas" yr *NPIA*, sy'n darparu cerbydau wedi eu paratoi ar gyfer gwasanaethau brys am brisiau is i'r Heddlu a Thân.
- Cerbydau Arbenigol e.e. cerbydau pwmp (injans tân). Gwneuthurwyr yn dod trwy'r fframwaith ar gyfer peiriannau pwmp penodol ar gyfer y sector, a grëwyd gan y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru ac sy'n agored i'r sector yn y DU.
- Trefniadau cydweithredol eisoes yn eu lle yn y sector tân.

Dillad a Lifrai

- Lifrai arbennig ar gyfer y gwasanaeth yn dod trwy gontractau fframwaith a osodwyd yn eu lle gan y grŵp caffael cenedlaethol penodol i'r sector, ac sy'n agored i bawb yn y DU.
- Cyd-fynd â gofynion amddiffyn personol.
- Trefniadau cydweithredol eisoes yn eu lle yn y sector tân.

Cyfarpar Amddiffyn Personol ar gyfer Ymateb i Danau ac Argyfyngau

- Dillad amddiffynnol arbenigol yn dod naill ai trwy gontractau fframwaith penodol i'r sector tân neu trwy fframweithiau sefydliadau prynu.

Bydd enghreifftiau eraill o ofynion yn seiliedig ar y sector, fel y nodwyd yn y llythyr eglurhaol a anfonwyd at Tracey Lee, a gellir ei drafod gyda rheolwyr y categorïau cyn pob tendr.

Yn gywir

Y Prif Swyddog Tân

Ask for/*Gofynnwch am* **Tracey Lee**
Our ref/*Ein cyf* **TL/tr**
Your ref/*Eich cyf*
Tel/ Ffôn **01633 656656**
Direct Dial/*Rhif Union*
*DX* **99463 Casnewydd (Gwent) 3**
*E-mail/E-bost* **tracey.lee@newport.gov.uk**

Newport
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
Casnewydd

Civic Centre/Canolfan Ddinesig
Newport/Casnewydd
South Wales/De Cymru
NP20 4UR

8 Hydref 2012

Annwyl Gyfeillion

**Gwahoddiad i ymuno â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol**

Rydym ni, sy'n uwch-arweinwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, yn wynebu pwysau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen ar ein cyllidebau, a hynny ar adeg pan fo gwasanaethau cyhoeddus yn dal yn hanfodol ar gyfer ein dinasyddion mwyaf agored i niwed.

Rydym yn gwario traean o'i gyllideb ar nwyddau a gwasanaethau allanol - oddeutu £4.3 biliwn y flwyddyn. Mae'n ddyletswydd arnom i wario'n ddoeth a sicrhau'r gwerth gorau am arian.

Mae o leiaf 20-30% o'r hyn rydym yn ei brynu yn gyffredin i bob sefydliad ac yn bethau sy'n cael eu prynu bob blwyddyn. Rydym wedi cael rhywfaint o lwyddiant gyda threfniadau cydweithio anffurfiol. Ond mae bryd nawr i symud i'r cam nesaf. Argymhellwyd yn glir yn yr adolygiad "Prynu'n Ddoethach ar Adegau Mwy Anodd" yn 2010, y dylid sefydlu contractau ar gyfer y math hwn o wariant er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei wneud unwaith yn unig i Gymru. Cymeradwywyd yr argymhelliad hwn gan ardoddiad Simpson, ac roedd y Compact yn adlewyrchu'r ymrwymiad i fwrw ymlaen â'r achos busnes ar gyfer Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Mae'r newid hwn yn angenrheidiol ac yn un a gymeradwywyd yn llawn gan Adolygiad McClelland yn ddiweddar.

Mae'r model Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi creu manteision sylweddol i'r llywodraethau datganoledig eraill yn y Deyrnas Unedig. Mae'n ddull gweithredu llwyddiannus ar gyfer sicrhau'r budd mwyaf o brosesau caffael ac yn fodel a ddefnyddir gan y rhan fwyaf o fusnesau byd-eang yn y sector preifat.

Rydym yn gwybod bod ein prosesau caffael presennol dan bwysau. Mae Adolygiad McClelland yn tynnu sylw at wendidau mawr mewn rhai meysydd. Mae'r ymchwiliad trawsbleidiol diweddar "Dylanwadu ar y broses o foderneiddio polisi caffael Ewrop", yn galw arnom i fynd i'r afael â 'chreadigrwydd, galluogrwydd a chapasiti'. Nid oes yn rhaid i gydweithio gael effaith negyddol ar ein heconomi. Mae Adolygiad McClelland yn dangos bod gwasanaeth caffael canolog cryf, sy'n canolbwyntio ar werth economaidd, yn arwain at fwy o wariant lleol nag y mae prynu 'maverick' sydd heb ei reoli.

Ni allwn barhau i anwybyddu'r angen i gryfhau ein trefniadau cydweithio, i safoni'r galw am ein meysydd gwariant cyffredin ac i fuddsoddi er mwyn creu'r galluogrwydd i gael gorau o'r farchnad. Bydd yr Achos Busnes ar gyfer creu Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn darparu gwell contractau a phrosesau mwy effeithiol, yn defnyddio sgiliau prin yn well, ac yn creu'r posibilrwydd o fanteision cymdeithasol ac economaidd ar lefel leol.

**Y cynnig**

1. Bod Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn cael ei sefydlu i wneud gwariant cyffredin ac ailadroddus unwaith-yn-unig i Gymru.

2. Bod ganddo drefniadau llywodraethu annibynnol traws-sector drwy Fwrdd o Brif Weithredwyr.

3. Bod y gwasanaeth yn cael ei sefydlu ar sail dull rheoli categorïau a'i fod wedi'i strwythuro fel bod y swyddogion arweiniol yn meddu ar ddealltwriaeth dda o wariant, y galw yn y dyfodol a'r farchnad ac yn datblygu strategaethau priodol a perthnasol ar gyfer cyrchu categorïau.

4. Bod £2.4 miliwn yn cael ei fuddsoddi bob blwyddyn yn y gwasanaeth er mwyn sicrhau arbedion o £74.8 miliwn dros 5 mlynedd, sydd £34 miliwn yn fwy na'r trefniadau presennol. Ceir rhagamcan o'r arbedion ar gyfer sectorau penodol yn adran 13 o'r atodiad i'r Achos busnes – tudalen 138.

5. Bod y gwasanaeth yn gyfrifol am ddatblygu cyfleoedd i greu manteision cymdeithasol ac economaidd yn ogystal â sicrhau arbedion.

6. Bod sefydliadau'n ymrwymo i ddefnyddio'r gwasanaeth am gyfnod o 5 mlynedd ac yn gwneud defnydd llawn o'r contractau cysylltiedig heblaw pan fo eithriad wedi'i gytuno cyn proses dendro a'i gyfiawnhau gan y Bwrdd. Hynny gan gymryd bod y gwasanaeth yn cael ei ariannu'n uniongyrchol drwy brosesau cyllidebu Llywodraeth Cymru nes ei fod yn aeddfedu, fwy na thebyg ar ôl tair blynedd (2016/2017), pan fydd y model ariannu yn newid i fodel hunan-ariannu ar sail ad-daliad o 2017-2018 ymlaen.

7. Bod arbenigedd caffael lleol yn cael ei gadw i gyrchu categorïau gwariant lleol ac i roi'r rheolaethau yn eu lle i sicrhau cydymffurfiaeth â chontractau cenedlaethol cytûn.

8. Bod cydweithio o fewn sectorau'n parhau er mwyn gwasanaethu meysydd gwariant sy'n unigryw i sectorau penodol lle bydd cydweithio'n creu manteision.

**Nodweddion**

- Cyfrwng strategol i gaffael nwyddau a gwasanaethau cyffredin i Gymru sy'n ystyried anghenion pob sector.
- Model cyflawni canolog sydd â'i strwythur llywodraethu ei hun a chynrychiolaeth briodol o bob sector.
- Yn canolbwyntio ar dair agwedd allweddol o'r broses gaffael - Datblygu Manylebau Cyffredin, Tendro a Rheoli Contractau.
- Wedi'i strwythuro ar sail dull rheoli categorïau; bydd yn ceisio llywio'r raddfa gaffael, dylanwadu ar y broses o reoli galw ac yn gweithredu arferion gorau.
- Yn defnyddio polisi caffael sector cyhoeddus Cymru i gefnogi arferion gorau.
- Yn gallu caffael atebion newydd neu arloesol er mwyn helpu i ddiwygio'r gwasanaethau cyhoeddus.
- Yn hybu dull cydgysylltiedig o gaffael er mwyn datblygu busnesau bach a chanolig yng Nghymru.
- Yn fodd i reoli'r berthynas â chyflenwyr yn effeithiol drwy un llwybr.

**Manteision**

- Yn sicrhau arbedion y gellir eu troi'n arian parod drwy leihau'r holl gostau sy'n gysylltiedig â phrynu nwyddau a gwasanaethau cyffredin ac ailadroddus.
- Yn osgoi costau diangen drwy symleiddio'r broses gaffael a sicrhau cydymffurfiaeth.
- Yn gyfle i sefydliadau rhanddeiliaid unigol ailddyrannu ei adnoddau prin i feysydd gwariant mwy critigol lle mae'r risg yn uwch.
- Yn datblygu proffesiynoldeb a galluogrwydd y gymuned gaffael yn Nghymru.
- Yn cael effaith bositif ar economi Cymru.
- Yn ei gwneud yn haws i gyflenwyr ymgysylltu â sector cyhoeddus Cymru.

Atodiad 2

Amgaeir gyda'r llythyr hwn gopi o'r Crynodeb Gweithredol, yr Achos Busnes llawn a'r atodiadau.

Bellach rydym angen ymrwymiad ffurfiol gan bob sefydliad i ymuno â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol er mwyn i'r penderfyniad i fuddsoddi gael ei wneud. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried y cynnig a amlinellir uchod. Er nad yw cynlluniau cyflawni a strwythur staffio'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi'u datblygu eto, gofynnir i chi gadarnhau eich ymrwymiad i ymuno â'r gwasanaeth am gyfnod o bum mlynedd. Bydd hyn yn golygu ymrwymiad ariannol amcangyfrifedig yn 2016-17 ar ffurf ad-daliad, ac ymrwymiad llawn i ddefnyddio'r contractau a fydd yn cael eu sefydlu gan y gwasanaeth (yn amodol ar yr eithriadau y cytunnir arnynt gan y Bwrdd Caffael).

Mae ffurflen wedi'i hamgáu i chi. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ei llofnodi ar ran eich sefydliad ar ôl i chi gynnal eich proses cymeradwyo mewnol eich hun, ac anfon copi at Dîm y Prosiect (Rebecca.rees2@wales.gsi.gov.uk) erbyn 14 Rhagfyr 2012.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae croeso i chi gysylltu â Thîm y Prosiect (Rebecca.rees2@wales.gsi.gov.uk).).

Yn gywir



**TRACEY LEE**

**Rheolwr Gyfarwyddwr, Cyngor Dinas Casnewydd**

**Gwahoddiad i ymuno â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol**

---

**Cytunaf, ar ran (*nodwch enw'r sefydliad*), fod*:***

1. ***Nodwch enw'r sefydliad***, yn dymuno ymuno â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i wneud gwariant cyffredin ac ailadrodus unwaith yn unig i Gymru;

2. Mae ein sefydliad yn ymrwymo i ddefnyddio'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol am gyfnod o 5 mlynedd gan dybio bod y Gwasanaeth yn cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru nes ei fod yn aeddfedu, fwy na thebyg ar ôl tair blynedd (2016/2017), pan fydd y model ariannu yn newid i fodel hunan-ariannu ar sail ad-daliad o 2017-2018 ymlaen;

3. Byddwn yn defnyddio **dull gwybodaeth reoli cytûn** lle mae tryloywder a diwylliant cadarn o reoli yn ôl categori yn creu manteision ym mhob agwedd ar y gwasanaeth.

4. Rydym yn **ymrwymo'n llawn i ddefnyddio'r contractau a fydd yn cael eu creu gan y Gwasanaeth**. Bydd unrhyw ddarpariaeth eithrio yn amodol ar drefn eithrio ac yn cael ei gyfiawnhau gan Fwrdd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol cyn bod y prosesau tendro'n dechrau, er mwyn sicrhau eu bod yn llwyddiannus ac nad yw'r manteision i aelodau eraill yn llai yn sgil dewis a dethol contractau. Bydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn cadw'r hawl i eithrio sefydliad sy'n defnyddio gormod ar y cymal eithrio hwn.

**Enw:**

**Swydd:**

**Sefydliad:**

**Llofnod:**

**Dyddiad:**

## Y categorïau sydd o fewn/allan o gwmpas y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

| Category | Subcategories considered within the scope of a National Procurement Service | Subcategories considered out of the scope of a National Procurement Service initially | Subcategories included in NPS review (£m) |
|---|---|---|---|
| Information Communication Technology | Hardware, Consumables, Software, Telecoms, Network and Support | Repair, Photographic Equipment and Website Design | £291.80 |
| Utilities | Electricity, Gas and Petroleum | Water, Wind, Solar, Coal and Wood | £153.30 |
| Facilities & Management Services | Maintenance Services, Travel, Advertising and Printers | Design, Photography and Market Research | £99.50 |
| Human Resources | Employment agencies and translators | Advisory Services and Training | £74.40 |
| Consultancy | Business and Technical consulting | Highly specialised - e.g. Planning, Food and Geological | £68.60 |
| Vehicle Management | Vehicle acquisition, Lease and Hire | Heavy construction and Industrial | £75.80 |
| Catering | Catering Supplies, Food and Vending | Fresh food, Equipment Maintenance, Linen Services and Caterers | £53.00 |
| Legal Services | Solicitors | Specialist support, Barristers | £35.20 |
| Healthcare | Medical and Mobility Equipment | Drugs, Specialist Medical Supplies and Hospital Equipment | £30.00 |
| Construction Materials | General Materials, Electrical Supplies and Equipment Hire | Specialist Materials - e.g. fencing, bathroom and kitchen | £20.00 |
| Stationery | Paper and General Stationery Supplies | Sundries including Promotional items | £14.20 |
| Furniture & Soft Furnishings | Office Furniture & Equipment | Commercial Furniture and Social Care Supplies | £14.20 |
| Mail Services | Postal Services, Couriers and Mailing Equipment | Freight and Mailroom services | £16.40 |
| Clothing | Uniforms, Workwear, Protective and Safety Equipment | Specialist protective clothing | £10.80 |
| Cleaning & Janitorial | Cleaning Materials and Equipment | N/A | £5.70 |
| Education | Audio-visual Equipment & Supplies | Services and Books | £4.20 |
| | | TOTALS | £967 |